Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Pam fod coed yn bwysig?

### Mae coed a choedwigoedd yn fannau i ni eu mwynhau

Mae coedwigoedd yn fannau gwych i wneud ymarfer corff, chwarae, neu ymlacio.

### Mae coed yn rhyddhau ocsigen

Yn ystod ffotosynthesis, mae coed yn amsugno carbon deuocsid ac yn rhyddhau ocsigen i ni anadlu.

### Gall coed atal llifogydd

Mae coed yn dal dŵr glaw yn eu brigau a’u dail, ac yn amsugno dŵr trwy’u gwreiddiau. Gall hyn helpu i atal nentydd ac afonydd rhag gorlifo.

### Mae bywyd gwyllt yn ddibynnol ar goed am gynefin a bwyd

Mae llawer o bryfed, adar, ac anifeiliaid yn byw mewn coed, ac yn bwyta ffrwythau, rhisgl, cnau a hadau.

### Mae coed yn gwella ansawdd pridd

Pan fydd dail, ffrwythau, a brigau yn disgyn, maent yn pydru ac yn rhyddhau mwynau i'r pridd gan ei ffrwythloni. Mae gwreiddiau yn atal erydiad pridd.

### Gallwch greu egni adnewyddadwy o goed

Gallwn ddefnyddio pren fel tanwydd, ac os caiff y coed eu hail-blannu, bydd yn ffynhonnell adnewyddadwy. Mae hyn yn well o lawer i'r amgylchedd na defnyddio ynni anadnewyddadwy megis glo, olew neu nwy.

### Mae coed a choedwigoedd yn dda i'n hiechyd

Mae coed yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae ymchwil wedi dangos fod bod ymysg coed a choetiroedd yn gallu gwneud i bobl deimlo'n iachach a'u helpu i wella'n gynt ar ôl salwch.

### Mae coed yn amsugno carbon deuocsid o'r aer

Yn ystod ffotosynthesis, mae coed yn amsugno carbon deuocsid o'r aer ac yn ei storio ar ffurf carbon.

### Rydym yn cael pren gan goed

Mae pren yn ddeunydd defnyddiol iawn, a gellir gwneud sawl peth ohono, er enghraifft: cychod, dodrefn, teganau, papur a llawer mwy! Mae’r eitemau yma’n storio carbon trwy gydol eu hoes.

### Mae coed yn darparu pren ar gyfer adeiladau

Mae pren yn ddeunydd cyffredin wrth adeiladu, ac nid yw angen cymaint o egni i’w greu o’i gymharu â choncrid neu ddur.